

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

## [<sup>F1</sup>ATODLEN A1

### TALIADAU UNIONGYRCHOL: ÔL-OFAL O DAN DDEDDF IECHYD MEDDWL 1983

#### Diwygiadau Testunol

**F1** Atod. A1 wedi ei fewnosod (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(6), 323

#### Cyffredinol

- Mae adran 50 (taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion oedolyn), 51 (taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion plentyn) a 53 (taliadau uniongyrchol: darpariaeth bellach) yn gymwys mewn perthynas ag adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ond fel pe bai'r addasiadau a ganlyn wedi eu gwneud i'r adrannau hynny.

#### Addasiadau i adran 50

- Yn lle is-adran (1) o adran 50 rhodder—

“(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i oedolyn y mae adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn gymwys iddo sy'n gyfatebol i'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal i'r oedolyn o dan yr adran honno.”
- Yn is-adran (3) o'r adran honno—
  - ym mharagraff (a), yn lle “y mae arno anghenion am ofal a chymorth (“A”)” rhodder “mewn cysylltiad â darparu i'r oedolyn (“A”) wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”, a
  - ym mharagraff (c)(i), yn lle “o ddiwallu anghenion A” rhodder “o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.
- Yn is-adran (4) o'r adran honno—
  - ym mharagraff (a), yn lle “y mae arno anghenion am ofal a chymorth (“A”)” rhodder “y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys iddo (“A”)”, a
  - ym mharagraff (d)(i) yn lle “o ddiwallu anghenion A” rhodder “o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.
- Yn is-adran (5) o'r adran honno—
  - ym mharagraff (a), yn lle “anghenion A am ofal a chymorth” rhodder “darparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”, a
  - ym mharagraff (b), yn lle “tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth” rhodder “sy'n gyfatebol i'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.
- Yn is-adran (6)(b) o'r adran honno, yn lle “anghenion A am ofal a chymorth” rhodder “darparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

### *Addasiadau i adran 51*

7. Yn lle is-adran (1) o adran 51 rhodder—

“(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson mewn cysylltiad â phlentyn y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn gymwys iddo sy'n gyfatebol i'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal i'r plentyn o dan yr adran honno.”

8. Yn is-adran (3)(a) a (b) o'r adran honno, yn lle “y mae arno anghenion am ofal a chymorth” (ym mhob lle y mae'n digwydd) rhodder “y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys iddo”.

9. Yn is-adran (5)(a) o'r adran honno, yn lle “ddiwallu anghenion y plentyn” rhodder “gyflawni ei ddyletswydd tuag at y plentyn o dan adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.

### *Addasiadau i adran 53*

10. Yn is-adran (1) o adran 53—

- (a) yn y geiriau agoriadol, yn lle “50, 51 neu 52” rhodder “50 neu 51”,
- (b) hepgorer paragraffau (a), (b) ac (c),
- (c) ym mharagraff (i), yn lle “y disodlir odanynt ddyletswydd neu bŵer awdurdod lleol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, neu anghenion gofalwr am gymorth, drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac i ba raddau y disodlir y ddyletswydd honno neu'r pŵer hwnnw” rhodder “y cyflawnir odanynt ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal), drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac i ba raddau y cyflawnir y ddyletswydd honno”, a
- (d) ym mharagraff (k), yn lle “50 i 52” rhodder “50 neu 51”.

11. Hefgorer is-adrannau (2) i (8) o'r adran honno.

12. Ar ôl is-adran (8) o'r adran honno mewnosoder—

“(8A) Rhaid i reoliadau a weir o dan adrannau 50 a 51 bennu bod rhaid i daliadau uniongyrchol i dalu'r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) gael eu gwneud ar raddfa y mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif ei bod yn gyfatebol i'r gost resymol o sicrhau'r ddarpariaeth o'r gwasanaethau hynny i ddiwallu'r anghenion hynny.”

13. Yn is-adran (9) o'r adran honno—

- (a) yn lle “, 51 neu 52” rhodder “neu 51”, a
- (b) yn lle “gofal a chymorth (neu, yn achos gofalwr, gymorth)” rhodder “gwasanaethau ôl-ofal”.

14. Yn lle is-adran (10) o'r adran honno, yn lle “ofal a chymorth (neu, yn achos gofalwr, gymorth) i ddiwallu anghenion” rhodder “wasanaethau ôl-ofal”.]

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 1

(a gyflwynwyd gan adran 85)

### CYFRANIADAU TUAG AT GYNHALIAETH PLANT SY’N DERBYN GOFAL

#### Atebolrwydd am gyfrannu

- (1) Pan fo awdurdod lleol yn gofalu am blentyn (mewn achosion ar wahân i’r rhai a grybwyllir yn is-baragraff (8)) rhaid iddo ystyried a ddylai adennill cyfraniadau tuag at gynhaliaeth y plentyn gan unrhyw berson sy’n atebol am gyfrannu (“cyfrannwr”).
- (2) Dim ond pan fo awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn rhesymol y caniateir iddo adennill cyfraniadau gan gyfrannwr.
- (3) Mae person yn atebol am gyfrannu os yw’n oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.
- (4) Nid yw person yn atebol am gyfrannu yn ystod unrhyw gyfnod pan fo’n cael budd-dal sy’n dod o fewn categori a bennir mewn rheoliadau.
- (5) Yn is-baragraff (4) mae “budd-dal” yn cynnwys unrhyw lwfans, taliad, credyd neu fenthyciad.
- (6) Nid yw person yn atebol am gyfrannu tuag at gynhaliaeth plentyn y mae awdurdod lleol yn gofalu amdano mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod y mae’r plentyn yn byw gydag un o rieni’r plentyn o dan drefniadau a wneir gan yr awdurdod yn unol ag adran 81.
- (7) Nid oes rhaid i gyfrannwr wneud unrhyw gyfraniad tuag at gynhaliaeth plentyn ac eithrio fel a gyntunir neu a ddyfennir yn unol â’r Atodlen hon.
- (8) Yr achosion yw’r rhai lle y mae awdurdod lleol yn gofalu am blentyn o dan—
  - (a) adran 76;
  - (b) gorchymyn gofal interim o dan Ddeddf Plant 1989;
  - (c) adran 92 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000.

#### Addasiadau (ddim yn newid testun)

- C1** Atod. 1 para. 1 wedi ei eithrio gan OS 2005/1313 rhl. 46A(2) (fel y’i eithirwyd) (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) a Chynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/216), rhlau. 1(2), 5(8)
- C2** Atod. 1 para. 1 wedi ei eithrio (6.4.2016) gan O.S. 2012/2813, rhl. 2A(c) (fel y’i mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016 (O.S. 2016/211), rhl. 1(2), **Atod. 3 para. 131**)
- C3** Atod. 1 para. 1 wedi ei eithrio (6.4.2016) gan O.S. 2012/2813, rhlau. 2A(c), 5A (fel y’i mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016 (O.S. 2016/211), rhl. 1(2), Atod. 3 parau. 131, 132)

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I1** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**
- I2** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag **ergl. 4**, Atod. 1, Atod. 2)

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

### Cyfraniadau y cytunwyd arnynt

- 2 (1) Ni chaniateir i gyfraniadau tuag at gynhaliaeth plentyn gael eu hadennill ond os yw’r awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad (“hysbysiad cyfrannu”) i’r cyfrannwr yn pennu—
- (a) y swm wythnosol y mae’n barnu y dylid ei gyfrannu, a
- (b) trefniadau ar gyfer talu.
- (2) Rhaid i’r hysbysiad cyfrannu fod yn ysgrifenedig ac wedi ei ddyddio.
- (3) Rhaid i’r trefniadau ar gyfer talu gynnwys, yn benodol—
- (a) y dyddiad y mae atebolrwydd am gyfrannu’n dechrau (y mae’n rhaid i’r dyddiad beidio â bod yn gynharach na dyddiad yr hysbysiad),
- (b) y dyddiad y bydd atebolrwydd o dan yr hysbysiad yn dod i ben (os nad yw’r plentyn, cyn y dyddiad hwnnw, wedi peidio â bod yn un sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod), ac
- (c) y dyddiad pryd y mae’r taliad cyntaf i’w wneud.
- (4) Caiff yr awdurdod bennu, mewn hysbysiad cyfrannu, swm wythnosol sy’n gyfraniad safonol a ddyfernir gan yr awdurdod ar gyfer yr holl blant y mae’n gofalu amdanynt.
- (5) Ni chaiff awdurdod bennu, mewn hysbysiad cyfrannu, swm wythnosol sy’n uwch na’r hyn y mae’n barnu—
- (a) y byddai fel arfer yn barod i’w dalu pe bai wedi lleoli plentyn tebyg gyda rhieni maeth awdurdod lleol, a
- (b) ei bod yn rhesymol ymarferol i’r cyfrannwr dalu (gan roi sylw i’w foddion byw).
- (6) Caiff awdurdod dynnu hysbysiad cyfrannu yn ôl ar unrhyw bryd (heb effeithio ar ei bŵer i gyflwyno un arall).
- (7) Pan fo’r awdurdod a’r cyfrannwr yn cytuno ar—
- (a) y swm y mae’r cyfrannwr i’w gyfrannu, a
- (b) trefniadau ar gyfer talu,
- (p’un ai fel a bennir yn yr hysbysiad cyfrannu neu fel arall) a bod y cyfrannwr yn hysbysu’r awdurdod yn ysgrifenedig ei fod yn cytuno â hynny, caiff yr awdurdod adennill yn ddiannod, fel dyled sifil, unrhyw gyfraniad sy’n orddyledus a heb ei dalu.
- (8) Nid yw is-baragraff (7) yn effeithio ar unrhyw ddull arall o adennill costau.
- (9) Caiff cyfrannwr, drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i’r awdurdod, dynnu ei gytundeb yn ôl mewn perthynas ag unrhyw gyfnod atebolrwydd sy’n dod ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad.

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I3** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 199\(2\)](#)

**I4** [Atod. 1 para. 2](#) mewn grym ar 6.4.2016 gan [O.S. 2016/412](#), [ergl. 2](#) (ynghyd ag [ergl. 4](#), [Atod. 1](#), [Atod. 2](#))

### Gorchmynion cyfraniadau

- 3 (1) Pan fo hysbysiad cyfrannu wedi ei gyflwyno i gyfrannwr a bod—

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- (a) y cyfrannwr wedi methu â dod i unrhyw gytundeb gyda’r awdurdod lleol fel a grybwyllwyd ym mharagraff 2(7) o fewn cyfnod o fis sy’n dechrau ar y diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad am gyfraniadau, neu
  - (b) y cyfrannwr wedi cyflwyno hysbysiad o dan baragraff 2(9) yn tynnu ei gytundeb yn ôl,

caiff yr awdurdod wneud cais i’r llys am orchymyn o dan y paragraff hwn.
- (2) Wrth gael cais o’r fath caiff y llys wneud gorchymyn (“gorchymyn cyfrannu”) yn ei gwneud yn ofynnol i’r cyfrannwr gyfrannu swm wythnosol tuag at gynhaliath y plentyn yn unol â threfniadau ar gyfer talu a bennir gan y llys.
- (3) O ran gorchymyn cyfrannu—
  - (a) ni chaiff bennu swm wythnosol sy’n uwch na’r hyn a bennir yn yr hysbysiad cyfrannu, a
  - (b) rhaid ei wneud gan roi sylw i foddion byw y cyfrannwr.
- (4) Ni chaiff gorchymyn cyfrannu—
  - (a) dod yn effeithiol cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad cyfrannu,
  - (b) cael effaith tra na bo’r cyfrannwr yn atebol am gyfrannu (yn rhinwedd paragraff 1), nac
  - (c) aros mewn grym ar ôl i’r plentyn beidio mwyach â bod yn un sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod a sicrhaodd y gorchymyn.
- (5) Ni chaiff awdurdod wneud cais i’r llys o dan is-baragraff (1) mewn perthynas â hysbysiad cyfrannu y mae wedi ei dynnu yn ôl.
- (6) Pan fo—
  - (a) gorchymyn cyfrannu mewn grym,
  - (b) yr awdurdod yn cyflwyno hysbysiad cyfrannu arall, ac
  - (c) y cyfrannwr a’r awdurdod yn dod i gytundeb o dan baragraff 2(7) mewn perthynas â’r hysbysiad cyfrannu arall hwnnw,

effaith y cytundeb yw disodli’r gorchymyn o’r dyddiad y cytunir bod y cytundeb i ddod yn effeithiol.
- (7) Pan ddeuir i gytundeb yn yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd yn is-baragraff (6) rhaid i’r awdurdod hysbysu’r llys—
  - (a) am y cytundeb, a
  - (b) am y dyddiad y daeth yn effeithiol.
- (8) Caniateir i orchymyn cyfrannu gael ei amrywio neu ei ddirymu ar gais y cyfrannwr neu’r awdurdod.
- (9) Mewn achos cyfreithiol ar gyfer amrywio gorchymyn cyfrannu, rhaid i’r awdurdod bennu—
  - (a) y swm wythnosol, gan roi sylw i baragraff 2, y mae’n bwriadu y dylai’r cyfrannwr ei gyfrannu o dan y gorchymyn fel y bydd yn cael ei amrywio, a
  - (b) y trefniadau arfaethedig ar gyfer talu.
- (10) Pan fo gorchymyn cyfrannu wedi ei amrywio—
  - (a) ni chaiff y gorchymyn bennu swm wythnosol sy’n uwch na’r un a bennwyd gan yr awdurdod yn yr achos cyfreithiol ar gyfer ei amrywio, a
  - (b) rhaid i’r gorchymyn gael ei wneud gan roi sylw i foddion byw y cyfrannwr.

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(11) Ceir gwneud apêl yn unol â rheolau’r llys yn erbyn unrhyw orchymyn a wneir o dan y paragraff hwn.

[<sup>F2</sup>(12) Bydd gorchymyn cyfrannu mewn perthynas â phlentyn, pe byddai fel arall yn parhau mewn grym, yn peidio â chael effaith pan fydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed.]

#### Diwygiadau Testunol

**F2** Atod. 1 para. 3(12) wedi ei fewnosod (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), 320

#### Gwybodaeth Cychwyn

**I5** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I6** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag **ergl. 4**, Atod. 1, Atod. 2)

#### Gorfodi gorchymynion cyfraniadau etc

4 <sup>F3</sup>(1) .....

<sup>F3</sup>(2) .....

(3) Pan fo cyfrannwr wedi cytuno, neu wedi cael ei orchymyn, i wneud cyfraniadau i awdurdod lleol, caiff unrhyw awdurdod lleol arall [<sup>F4</sup>neu awdurdod lleol yn Lloegr] y mae’r cyfrannwr yn byw yn ei ardal am y tro—

- (a) ar gais yr awdurdod lleol a gyflwynodd yr hysbysiad cyfrannu, a
- (b) yn ddarostyngedig i gytundeb ynghylch unrhyw swm sydd i’w ddiwynnu mewn cysylltiad â’r gwasanaethau a ddarparwyd,

gasglu oddi wrth y cyfrannwr unrhyw gyfraniadau sy’n ddyledus ar ran yr awdurdod a gyflwynodd yr hysbysiad.

(4) Mae’r pŵer i gasglu symiau o dan is-baragraff (3) yn cynnwys pŵer i—

- (a) cael unrhyw gyfraniadau sy’n ddyledus a rhoi rhyddhad rhag eu talu, a
- (b) (os yw’n angenrheidiol) gorfodi unrhyw gyfraniadau i gael eu talu,

er ei bod yn bosibl bod y cyfraniadau hynny wedi dod yn ddyledus ar adeg pan roedd y cyfrannwr yn byw yn rhywle arall.

(5) Mae unrhyw gyfraniad a gesglir o dan is-baragraff (3) i’w dalu (yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwyniad y cytunwyd arno) i’r awdurdod lleol a gyflwynodd yr hysbysiad cyfraniadau.

(6) Mewn unrhyw achos cyfreithiol o dan y paragraff hwn, mae dogfen—

- (a) sy’n honni ei bod yn gopi o orchymyn a wnaed gan lys o dan neu yn rhinwedd paragraff 3, a
- (b) sy’n honni ei bod wedi ei hardystio’n wir gopi gan y swyddog dynodedig i’r llys,

i’w derbyn fel tystiolaeth o’r gorchymyn.

(7) Mewn unrhyw achos cyfreithiol o dan y paragraff hwn, mae tystysgrif—

- (a) sy’n honni ei bod wedi ei llofnodi gan y cleric neu gan ryw swyddog arall a awdurdodwyd yn briodol a hwnnw’n swyddog i’r awdurdod lleol a sicrhaodd y gorchymyn cyfrannu, a

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- (c) sy’n nodi bod unrhyw swm sy’n ddyledus i’r awdurdod o dan y gorchymyn yn orddyledus a heb ei dalu,  
i’w derbyn fel tystiolaeth bod y swm yn orddyledus a heb ei dalu.

#### Diwygiadau Testunol

- F3** Atod. 1 para. 4(1)(2) wedi eu hepgor (6.4.2016) yn rhinwedd Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), 321(a)  
**F4** Geiriau yn Atod. 1 para. 4(3) wedi eu mewnosod (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), 321(b)

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I7** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**  
**I8** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag **ergl. 4**, Atod. 1, Atod. 2)

#### Rheoliadau

- 5 Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer—
- (a) yr ystyriaethau y mae’n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu—
- (i) a yw’n rhesymol adennill cyfraniadau, a
- (ii) yr hyn y dylai’r trefniadau ar gyfer talu fod;
- (b) y gweithdrefnau y mae’n rhaid i awdurdod lleol eu dilyn wrth ddod i gytundeb â’r canlynol—
- (i) cyfranwyr (o dan baragraffau 2 a 3), a
- (ii) unrhyw awdurdod lleol arall (o dan baragraff 4).

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I9** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**  
**I10** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag **ergl. 4**, Atod. 1, Atod. 2)

#### Cyflwyno hysbysiad cyfrannu

- 6 (1) Caniateir i hysbysiad cyfrannu y mae’n ofynnol ei gyflwyno i gyfrannwr o dan yr Atodlen hon gael ei gyflwyno i’r cyfrannwr—
- (a) drwy ei ddsbarthu’n bersonol i’r cyfrannwr, neu
- (b) drwy ei anfon at y cyfrannwr—
- (i) drwy wasanaeth post cofrestredig (fel y diffinnir “registered post service” gan adran 125(1) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000), neu
- (ii) drwy wasanaeth post sy’n darparu i ddsbarthiad y ddogfen gael ei gofnodi.
- (2) At ddibenion adran 7 o Ddeddf Ddehongli 1978 o ran ei chymhwysu i’r paragraff hwn, cyfeiriad priodol cyfrannwr yw cyfeiriad hysbys diwethaf y cyfrannwr.

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I11** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**  
**I12** Atod. 1 para. 6 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag **ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2**)

## ATODLEN 2

(a gyflwynwyd gan adran 143)

### SWYDDOGAETHAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I13** Atod. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**  
**I14** Atod. 2 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag **ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2**)

## TABL 1

Y deddfiad	Natur y swyddogaethau
<b>Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933</b> Adrannau 34 a 34A	Amddiffyn yr ifanc mewn perthynas ag achosion troseddol a diannod.
<b>Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968</b> Adran 65	Cymorth ariannol a chymorth arall a roddir gan awdurdodau lleol i sefydliadau gwirfoddol penodol.
<b>Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969</b> Y Ddeddf gyfan	Gofal a dulliau eraill o ymdrin â phlant a phersonau ifanc yn ystod achosion llyso.
<b>Deddf Mabwysiadu 1976</b>	Swyddogaethau sy'n parhau i fod yn arferadwy yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed a wneir gan neu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.
<b>Deddf Iechyd Meddwl 1983</b> Rhannau 2, 3 a 4; Adrannau 66, 67, 69(1), 114, 115, 116, 117 a 130	Lles y rhai hynny sydd ag anhwylder meddwl; gwarcheidiaeth personau sy'n dioddef gan anhwylder meddwl gan gynnwys y personau hynny sydd wedi eu symud i Gymru a Lloegr o'r Alban neu o Ogledd Iwerddon; arfer swyddogaethau perthynas agosaf y person sy'n dioddef felly; arfer swyddogaethau'r perthynas agosaf mewn perthynas â cheisiadau a chyfeiriadau at y Tribiwnlys Haen Gyntaf neu Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru; penodi gweithwyr iechyd meddwl sydd wedi eu cymeradwyo; mynd i mewn ac arolygu; lles ysbytai penodol; ôl-ofal cleifion a gedwir yn gaeth; erlyniadau.



*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

Y deddfiad	Natur y swyddogaethau
<b>Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984</b> Adran 46(2) a (5)	Claddu neu amlosgi person sy'n marw mewn llety a ddarperir o dan [F <sup>5</sup> Ran 4] o'r Ddeddf hon ac adennill treuliau o ystad y person hwnnw.
<b>Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 1984</b> Adran 10	Lles personau penodol tra bônt yn yr ysbyty yn yr Alban.
<b>Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986</b> [F <sup>6</sup> Adrannau 1, 2 a 5(5)]	Cynrychioli ac asesu personau anabl.
<b>Deddf Tai (Yr Alban) 1987</b> Adran 38(b)	Cydweithredu mewn perthynas â phersonau digartref a phersonau sydd o dan fygythiad o gael eu gwneud yn ddigartref.
<b>[F<sup>7</sup>Deddf Plant 1989</b> Y Ddeddf gyfan i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i awdurdod lleol yng Nghymru o fewn ystyr y Ddeddf ac eithrio— (a) Rhan 3 ac Atodlen 2 (cymorth awdurdod lleol i blant a theuluoedd); (b) adran 36 a pharagraffau 12 i 19(1) o Atodlen 3 (gorchmynion goruchwyllo addysg).]	[F <sup>7</sup> Adroddiadau lles; cydsynio i gais am orchymyn preswyllo mewn cysylltiad â phlentyn mewn gofal; swyddogaethau sy'n ymwneud â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig; gorchmynion cymorth teulu; gofal a goruchwyllo; amddiffyn plant; swyddogaethau mewn perthynas â chartrefi cymunedol, cartrefi gwirfoddol a sefydliadau gwirfoddol, cartrefi plant preifat, a threfniadau preifat ar gyfer maethu plant; arolygu cartrefi plant ar ran Gweinidogion Cymru; ymchwil a dychwelebau gwybodaeth.]
<b>[F<sup>8</sup>Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990</b> Adran 47] F <sup>9</sup> ...	[F <sup>8</sup> Asesiad o anghenion am wasanaethau o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.] F <sup>9</sup> ...
<b>Deddf Addysg 1996</b> Adran 322	Cymorth i awdurdod lleol arall wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan Ran 4 o'r Ddeddf.
<b>Deddf Mabwysiadu (Agweddau Rhwng Gwledydd) 1999</b> Adrannau 1 a 2(4)	Swyddogaethau o dan reoliadau a wnaed o dan adran 1 yn rhoi effaith i'r Confensiwn ar Amddiffyn Plant a Chydweithredu mewn cysylltiad â Mabwysiadu Rhwng Gwledydd, a gwblhawyd yn yr Hag ar 29 Mai 1993, a swyddogaethau o dan Erthygl 9(a) i (c) o'r Confensiwn.
<b>Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002</b>	Cynnal Gwasanaeth Mabwysiadu; swyddogaethau awdurdod lleol fel asiantaeth fabwysiadu.
<b>Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003</b>	Swyddogaethau sy'n ymwneud â chleifion mewn ysbytai y mae'n debygol y bydd angen

Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

Y deddfiad	Natur y swyddogaethau
Rhan 1	gwasanaethau gofal cymunedol arnynt er mwyn eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel.
<b>Deddf Galluedd Meddyliol 2005</b> Adrannau 39, 39A, 39C, 39D, 49 ac Atodlen A1	Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol cyn darparu llety i berson nad oes ganddo alluedd; cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol wrth roi awdurdodiad brys, neu wrth wneud cais am awdurdodiad safonol, o dan Atodlen A1 i'r Ddeddf; cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan na fo cynrychiolydd ar gael ar gyfer person perthnasol o dan Ran 10 o Atodlen A1 i'r Ddeddf; cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan na fo cynrychiolydd ar gyfer person perthnasol o dan Ran 10 o Atodlen A1 i'r Ddeddf yn cael ei dalu; adroddiadau mewn achosion cyfreithiol; swyddogaethau sy'n ymwneud â phreswylwyr ysbytai a chartrefi gofal.
<b>Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010</b> Adran 66 [ <sup>F10</sup> Adran 67]	Swyddogion safonau gwaith cymdeithasol teuluol. [ <sup>F10</sup> Y ddarpariaeth o wasanaethau gofal perthnasol o fewn ystyr yr adran honno.]
<b>Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010</b> Rhannau 1 i 3	Gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, cydgyssylltu a chynllunio gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, asesu defnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.
<b>Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012</b> Adran 92	Swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd wedi ei remandio i lety awdurdod lleol.
<b>Deddf Gofal 2014</b> Adrannau 50 a 52	Dyletswydd dros dro i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth (neu anghenion am gymorth) pan fo sefydliad neu asiantaeth yn methu â'u diwallu oherwydd methiant busnes.
[ <sup>F11</sup> <b>Deddf Tai (Cymru) 2014</b> Adran 95(2),(3) a (4); ond dim ond pan fo'r swyddogaethau hynny'n gymwys yn rhinwedd is-adran (5)(b) o'r adran honno.]	[ <sup>F11</sup> Cydweithredu a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â phersonau digartref a phersonau sydd o dan fygythiad o gael eu gwneud yn ddigartref.]
<b>Y Ddeddf hon</b> Y Ddeddf gyfan, ac eithrio'r swyddogaethau o dan adrannau 15(4) (i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau eraill nad ydynt yn rhai gwasanaethau cymdeithasol), 120(2), 128(1) a (2), 130(1) a (2), 162 ac adran 164.	Gwasanaethau ataliol; gofal a chymorth; cymorth i ofalwyr; plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya; diogelu oedolion a phlant.

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

### Diwygiadau Testunol

- F5** Geiriau yn Atod. 2 wedi eu hamnewid (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **324(a)**
- F6** Geiriau yn Atod. 2 wedi eu hamnewid (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **324(b)**
- F7** Geiriau yn Atod. 2 wedi eu hamnewid (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **324(c)**
- F8** Geiriau yn Atod. 2 wedi eu mewnosod (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **324(d)**
- F9** Geiriau yn Atod. 2 wedi eu hepgor (27.4.2015) yn rhinwedd Deddf Tai (Cymru) 2014 (anaw 7), a. 145(3), **Atod. 3 para. 22(3)(a)**; O.S. 2015/1272, ergl. 2, Atod. para. 53
- F10** Geiriau yn Atod. 2 wedi eu mewnosod (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **324(e)**
- F11** Geiriau yn Atod. 2 wedi eu mewnosod (27.4.2015) gan Deddf Tai (Cymru) 2014 (anaw 7), a. 145(3), **Atod. 3 para. 22(3)(b)**; O.S. 2015/1272, ergl. 2, Atod. para. 53

## ATODLEN 3

(a gyflwynwyd gan adran 179)

### YMCHWILIO I GWYNION YNGHYLCH GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL LLINIAROL A DREFNIR NEU A ARIENNIR YN BREIFAT

#### RHAN 1

##### RHANNAU NEWYDD 2A A 2B AR GYFER DEDDF OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) 2005

- 1 Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

### Gwybodaeth Cychwyn

- I15** Atod. 3 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**
- I16** Atod. 3 para. 1 mewn grym ar 1.11.2014 gan **O.S. 2014/2718, ergl. 2(b)**

- 2 Ar ôl Rhan 2 (ymchwilio i gwynion) mewnosoder—

#### “PART 2A

##### INVESTIGATION OF COMPLAINTS RELATING TO OTHER PERSONS: SOCIAL CARE AND PALLIATIVE CARE

##### *Application of this Part*

#### 34A Matters to which this Part applies

- (1) This Part applies to the following matters—

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- (a) action taken by a care home provider in connection with the provision of accommodation, nursing or personal care in a care home in Wales;
  - (b) action taken by a domiciliary care provider in connection with the provision of domiciliary care in Wales;
  - (c) action taken by an independent palliative care provider in connection with the provision of a palliative care service in Wales.
- (2) But this Part does not apply to—
- (a) matters which may be investigated under Part 2, or
  - (b) matters described in Schedule 3A.
- (3) The Welsh Ministers may by order amend Schedule 3A by—
- (a) adding an entry,
  - (b) removing an entry, or
  - (c) changing an entry.
- (4) Before making an order under subsection (3), the Welsh Ministers must consult the Ombudsman.
- (5) No order is to be made under subsection (3) unless a draft of the statutory instrument containing it has been laid before, and approved by a resolution of, the Assembly.
- (6) For the meaning of the following terms see sections 34R to 34T—
- “care home”;
  - “care home provider”;
  - “domiciliary care”;
  - “domiciliary care provider”;
  - “palliative care service”;
  - “independent palliative care provider”.

### *Investigation of complaints*

#### **34B Power to investigate complaints**

- (1) The Ombudsman may investigate a complaint about a matter to which this Part applies if—
- (a) the complaint has been duly made or referred to the Ombudsman, and
  - (b) in the case of a complaint which relates to an independent palliative care provider, the condition in subsection (2) is met.
- (2) The condition is that the independent palliative care provider has received public funding, within the three years before the date of the action to which the complaint relates, in respect of a palliative care service that it provides in Wales.
- (3) In subsection (2) “public funding” means funding from—
- (a) the Welsh Ministers,
  - (b) a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006,

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- (c) an NHS Trust, or
  - (d) a county council or county borough council in Wales.
- (4) A complaint is “duly made” to the Ombudsman if (but only if)—
- (a) it is made by a person who is entitled under section 34D to make a complaint to the Ombudsman,
  - (b) before the complaint is made—
    - (i) the matter to which it relates has been brought, by or on behalf of the person affected, to the notice of the provider to whom it relates, and
    - (ii) the provider has been given a reasonable opportunity to investigate the matter and to respond, and
  - (c) the requirements of section 34E are met in respect of it.
- (5) A complaint is “duly referred” to the Ombudsman if (but only if)—
- (a) it is made by a person who is entitled under section 34D to make a complaint to the Ombudsman, and
  - (b) the requirements of section 34F are met in respect of it.
- (6) It is for the Ombudsman to determine whether the requirements of subsection (1) have been met in respect of a complaint.
- (7) Where the Ombudsman determines that the requirements of subsection (1) have not been met in respect of a complaint because the requirements of subsection (4)(b), section 34E or section 34F(1)(a)(ii) or (b)(ii) have not been met in respect of that complaint, the Ombudsman may nonetheless investigate the complaint if—
- (a) it relates to a matter to which this Part applies, and
  - (b) the Ombudsman thinks it reasonable to do so.
- (8) It is for the Ombudsman to decide whether to begin, continue or discontinue an investigation.
- (9) The Ombudsman may take any action which he or she thinks may assist in making a decision under subsection (8).
- (10) The Ombudsman may begin or continue an investigation into a complaint even if the complaint has been withdrawn.

### **34C Alternative resolution of complaints**

- (1) The Ombudsman may take any action he or she considers appropriate with a view to resolving a complaint which he or she has the power to investigate under section 34B.
- (2) The Ombudsman may take action under this section in addition to or instead of conducting an investigation into the complaint.
- (3) Any action under this section must be taken in private.

### **34D Who can complain**

- (1) The persons entitled to make a complaint to the Ombudsman are—

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/12/2017.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 13 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- (a) a member of the public (referred to in this Part as “the person aggrieved”) who claims or claimed to have sustained injustice or hardship as a result of a matter to which this Part applies,
  - (b) a person authorised in writing by the person aggrieved to act on that person’s behalf, or
  - (c) if the person aggrieved is not capable of authorising a person to act on his or her behalf (for example because the person has died), a person who appears to the Ombudsman to be appropriate to act on behalf of the person aggrieved.
- (2) “Member of the public” does not include a person acting in his or her capacity as—
